

HORIZON MASNACHOL



Cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd Ddydd Iau, 9 Mawrth 2017 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian, yn swyddfa safle Wylfa Newydd.

Yn Bresennol (sefydliadau yn nhrefn yr wyddor):

Enw	Sefydliad
Dennis Evans	Cadeirydd
Myrddin Owens	Cyngor Tref Amlwch
Peter Day	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Don White	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Phil Scott	Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn
Gwenno Evans	Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Ynys Môn
Gwilym Williams	Clough & Co
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid/ Pwynt Cyswllt Unigol yr Adeilad Niwclear Newydd
Wyn Thomas	Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu Grŵp Llandrillo Menai
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Manon Francis	Rhaglen Ynys Ynni, Cyngor Sir Ynys Môn
Tony Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Ieuan Williams	Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (Lligwy)
Richard Dew	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Llifon
John Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Talybolion
Kenneth P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Talybolion
Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Ann Kennedy	Maer Cyngor Tref Caergybi
Medwyn Williams	Magnox Cyf
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Dr Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Alwyn Rowlands	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Margaret Thomas	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Eurwyn Aled Hughes	Ysgol Uwchradd Bodedern

Ymddiheuriadau:

Enw	Sefydliad
Guto Bebb AS	Aelod Seneddol Aberconwy
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Michelle Brown AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gogledd Cymru
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle'r Awdurdod Datgomiynu Niwclear ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa
Carys Edwards	Cyngor Sir Ynys Môn
Janet Finch Saunders AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Aberconwy

HORIZON MASNACHOL



Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Siân Gwenllian AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Arfon
Anthony Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Alli Hunt	Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Talybolion
Rhun ap Iorwerth AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ynys Môn
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Stuart Law	Magnox Cyf
Gwynne Morris Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Mel O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Liz Saville Roberts AS	Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd
Mark Thornton	Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Pwyllgor Ynys Môn
Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Keith Williams	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Rebecca Williams	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA)
Hywel Williams AS	Aelod Seneddol Arfon

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ag yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac edrychwch ar <http://www.horizonnuclearpower.com>

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar <http://www.wylfaplq.com/cymraeg/>

1. Croeso, cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2016 a materion yn codi – Dennis Evans, Cadeirydd

- Croesawodd Dennis Evans (DE) bawb i'r cyfarfod am 5:30pm a chyflwynodd yr unigolion a fyddai'n rhoi cyflwyniadau.
- Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddynt wedi'u cynnwys eisoes yn agenda'r cyfarfod.
- Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o gyfarfod 13 Rhagfyr 2016.

2. Cyflwyniad ar y cynnydd diweddaraf ar Wylfa Newydd – Sasha Davies, Pennaeth Datblygu Strategol Cymru; Charlie Tasker, Pennaeth Adeiladu

- Croesawodd Sasha Davies (SD) bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- **DE** oedd yr unig enwebiad ar gyfer y gadair ac fe'i penodwyd yn awtomatig. Diolchwyd iddo am barhau yn y rôl.

- Derbyniwyd dau enwebiad ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd ac felly byddai pleidlais bost yn cael ei chynnal ar ôl y cyfarfod, gan roi hysbysiad ynghylch yr ymgeisydd llwyddiannus.

- Rhoddodd **SD** adroddiad am y cynnydd diweddaraf dros y misoedd diwethaf. Crybwyllodd **SD** fod ail rownd prentisiaeth Horizon 2017 a lanswyd ddechrau Chwefror wedi denu llawer o ddiddordeb gyda thros 270 o geisiadau wedi derbyn o bob rhan o Ogledd Cymru; roedd **SD** yn hyderus y gellid penodi hyd at 12 o brentisiaid mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai.

- Dywedodd **SD**, fel rhan o Raglen Addysg Horizon, y bu'r tîm yn ymweld ag ysgolion cynradd lleol yn ddiweddar, gyda ffocws ar gyfnod allweddol 2 a hyrwyddo pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg).

- Dywedodd **SD** hefyd fod Horizon wedi rhoi dros £100,000 i fudiadau lleol dros y 2 flynedd ddiwethaf drwy Gronfa Rhoddion Elusennol Horizon. Dywedodd fod croeso i grwpiau a mudiadau gwirfoddol wneud cais i'r cynllun, sydd ar gael ar wefan Horizon.

- Cyflwynodd Charlie Tasker (**CT**) adroddiad am y diweddaraf o ran gweithgareddau ar y safle, a oedd yn cynnwys;
 - Gwelliannau Ffordd Nanner - yr oedd y ffordd wedi'i huwchraddio ac yr oedd disgwyl y byddai'n cael ei chwblhau yr wythnos ddilynol. Nododd Richard Foxhall (**RF**) fod trigolion lleol wedi gwneud sylwadau ar safon uchel y gwaith ar y ffordd.
 - Ail waith cylched SPEN (Scottish Power Energy Network) a fyddai'n dechrau'n fuan.
 - Mae gwaith archaeolegol pellach yn angenrheidiol gan fod rhai ardaloedd wedi'u nodi ar gyfer gwaith pellach. Byddai hyn yn digwydd yn ystod Ebrill/Mai 2017, gan ddibynnu ar ganiatâd.
 - Yr oedd holl geblau uwchben SP Manweb yn cael eu tynnu i lawr i gefnogi'r adeiladu gyda cheblau newydd yn cael eu gosod dan ddaear; dylai'r rhain fod wedi eu cwblhau erbyn diwedd yr haf. Eglurodd **CT** y byddai'r gwaith a oedd yn cael ei wneud yma hefyd yn helpu i wella cysylltiadau lleol, gan olygu llai o doriadau yn y cyflenwad trydan yn ystod cyfnodau o dywydd garw.
 - Byddai gwaith gyda Dŵr Cymru yn dechrau eleni ar bibelli dŵr o Gemaes i Drwyn yr Wylfa.
 - Yr oedd arolygon ecolegol a morol yn parhau. Byddai rhai profion sŵn yn cael eu cynnal ar ddiwedd mis Mawrth; byddai hyn yn cynnwys dirgryniadau maes / hyrddiau sŵn a fyddai'n efelychu'r lefelau sŵn a ddisgwylir yn ystod amser gwaith. Byddai rhai profion i'r dyfodol yn yr haf hefyd. Byddai hysbysiad yn cael ei roi i'r gymuned leol ymlaen llaw.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Yr oedd rhai adeiladau yr oedd angen eu tynnu i lawr a byddai hyn yn digwydd yn y gwanwyn.
- Crybwyllodd **SD** fod Wylfa Newydd yn brosiect am 100 mlynedd a mwy a'i bod yn bwysig i bethau gael eu gwneud yn iawn er budd hirdymor y busnes a'r gymuned, ac er nad oedd y prosiect wedi'u warantu 100% eto (hyd nes gwneir y Penderfyniad Buddsoddi Ariannol ar ddiwedd 2019) - dyma fu dull gweithredu Horizon erioed.
- Aeth **SD** ymlaen i ddatgan fod gwaith sylweddol eisoes wedi ei wneud mewn rhannau allweddol o'r prosiect, gan gynnwys datblygu cadwyn gyflenwi leol, recriwtio yn lleol, datblygu sgiliau addysg lleol mewn pynciau STEM ac amddiffyn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yna nododd **SD** fod yr holl feysydd hyn yn rhan o waith Horizon o ddydd i ddydd, ac yn rhan gynhenid o werthoedd y cwmni.
- Aeth **SD** ymlaen i gyflwyno'r chwe phrif gwestiwn ynghylch Prosiect Wylfa Newydd y mae'n rhaid i ni i gyd eu cadw mewn cof, sef:
 1. Beth ydyn ni'n ei adeiladu?
 2. Faint fydd o'n ei gostio? Yr oedd y costau wedi eu canfod ac un o sialensiau Horizon oedd cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth y DU.
 3. Pa mor hir fydd o'n ei gymryd? Roedd 2025 wedi ei bennu fel targed y gellid ei gyflawni i adweithydd 1 ddod yn weithredol.
 4. Sut byddwn ni'n adeiladu'r sefydliad? Yr oedd hyn yn golygu sefydlu strwythur effeithiol ar gyfer Horizon a fyddai'n weithredol drwy'r cyfnod datblygu, y cyfnod adeiladu ac ymlaen i'r cyfnod gweithredol.
 5. O ble ddaw'r arian? Yr oedd buddsoddwyr yn cael eu ceisio i helpu i ariannu'r datblygiad; roedd hyn yn mynd rhagddo ac yn gwneud cynnydd da.
 6. Sut bydd Wylfa Newydd o fudd i'r gymuned leol? Budd sylweddol o'r adeiladu drwodd i'r cyfnod gweithredol.
- Cyflwynwyd yr amserlen ar gyfer gwaith a'r prif waith adeiladu.
 - Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio cam tri (PAC 3) - Mai 2017
 - Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) - 2017
 - Caniatáu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu - 2018
 - Penderfyniad Buddsoddi Terfynol - diwedd 2019
 - Adeiladu niwclear cyntaf wedi'i gynllunio i gychwyn yn 2020.
 - Y Prif Waith Adeiladu 2020 – 2025
 - Yr oedd disgwyl i gomisiynu ddechrau yn 2023
 - Gweithredu'n fasnachol yn 2025

Yr oedd y sefydliad yn hyderus ynghylch yr amserlen hon pe byddai'n llwyddiannus gyda chyllid ac yn sicrhau cydsyniad i adeiladu.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Dywedodd **SD** fod Hitachi eisoes wedi buddsoddi dros £1.5 miliwn yn datblygu'r prosiect a bod dau gam o ymgynghori cyn ymgeisio wedi eu cwblhau ynghyd â gwaith a oedd yn mynd rhagddo o ran datblygu fframwaith cadwyn gyflenwi, rhaglen addysg a sgiliau.

3. Diweddariad am Gynllunio ac Ymgynghori - Ifer Gwyn, Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Cyflwynodd Ifer Gwyn (**IG**) fanylion y strategaeth cydsynio. Y prif newid ers PAC2 oedd bod Deddf Cymru bellach yn ei lle. Yr oedd hyn yn golygu y gallai Horizon gyflwyno ein Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer prosiect Wylfa Newydd i Arolygiaeth Gynllunio'r DU ar gyfer Prosiectau Cenedlaethol eu Harwyddocâd (PINS). Fodd bynnag, bydd Ceisiadau Cynllunio Gwlad a Thref (TCPAs) ar gyfer y datblygiadau cysylltiedig o ran gwaith cychwynnol/clario ar y safle a gwelliannau i linell yr A5025, yn dal i gael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn. Mae Horizon hefyd yn gweithio'n glos gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Bydd trydydd cam yr ymgynghori cyn ymgeisio (PAC3) yn dechrau tua diwedd mis Mai ac yn cwmpasu'r elfennau o gynigion Wylfa Newydd sydd wedi newid ers PAC2 yn yr hydref 2016. Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Ffocws (PLG) yn canolbwyntio ar PAC3 ac mae dyddiad yn ystod wythnos olaf mis Mai i gael ei drefnu.
- Esboniodd **IG** fod y prosiect wedi mynd drwy gyfnod o optimeiddio a oedd yn caniatáu i Horizon ystyried canlyniadau'r ymgynghori o PAC2, er enghraifft, ystyried effeithiau amgylcheddol Wylfa Newydd, cynllun adeiladau ar y safle a llety gweithwyr dros dro. Rhaid i'r cynigion hefyd apelio at fuddsoddwyr ar lefel fyd-eang ac adlewyrchu'r ffordd orau o leihau i'r eithaf yr effaith ar gymunedau lleol.
- Eglurodd **IG** fod cynllun yr Orsaf Bŵer hefyd wedi'i optimeiddio a bod ôl troed llai i'r safle bellach, sy'n well i drigolion lleol Treglele ond hefyd yr amgylchedd ehangach gan fod angen llai o goncrid yn ystod y gwaith adeiladu.
- Cyflwynodd **CT** y rhestr adeiladu gyda'r lefelau staffio disgwylidig gydol y cyfnod adeiladu. Yn ei anterth, yn ystod y cyfnod llwytho tanwydd rhwng 2023 a 2025, amcangyfrifir y bydd angen oddeutu 9,000 o weithwyr ar y safle. Esboniodd **CT** fod y ffigur hwnnw ychydig yn is na'r un a drafodwyd yn flaenorol.
- Cyflwynwyd manylion llety gweithwyr dros dro. Derbyniwyd nifer o sylwadau manwl ar hyn yn ystod cyfnod ymgynghori PAC2 ac roedd trafodaethau'n parhau ar lety Land and Lakes. Yr oedd y cytundeb dewis cychwynnol ar gyfer Rhosgoch wedi ei lofnodi, gyda gwaith i'w wneud o hyd. Yr oedd llety ar y safle yn cael ei gynllunio, gyda lle ar gyfer oddeutu 500 wedi'i amlinellu i ddechrau yn PAC2. Fodd bynnag, yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad a'r angen i gyflawni prosiect fforddiadwy, yr oedd disgwyl i hyn godi i dros 2,500. Yr oedd gwaith yn parhau i gael ei wneud ar y manylion.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Dangoswyd brasddyluniad cychwynnol o'r llety ar y safle, a fyddai'n cael ei adeiladu yn unol â'r gofynion o ran niferoedd gweithwyr maes o law ac yn fodiwlaid er mwyn caniatáu hyblygrwydd o ran niferoedd. Nid oedd yr union ddyluniad na'r lleoliad terfynol wedi ei benderfynu eto a bydd cynigion yn cael eu cynnwys yn PAC3.
- Esboniodd **SD** ymrwymiad Horizon i'r gymuned ar Ynys Môn ac yn benodol i ogledd Ynys Môn. Nid oeddynt yn cymryd yn ganiataol y drwydded gymdeithasol i weithredu ac yn parhau i weithio'n glos gyda'r gymuned leol i sicrhau ein bod yn gymydog da ac i feithrin cefnogaeth barhaus y gymuned.
- Pwysleisiodd **SD** fod amddiffyn a diogelu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ymrwymiad allweddol a gobeithiwn y bydd pobl ifanc yn dychwelyd i Ynys Môn i weithio fel rhan o Wylfa Newydd, gan greu cyfleoedd ehangach yn yr ardal leol.
- Dywedodd **SD** y byddai Horizon yn un o noddwyr allweddol yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modern yr haf hwn, ac y byddai hefyd yn bartner gweithredol, yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
- Rhoddodd SD fanylion ar gamau nesaf y Prosiect, a oedd yn cynnwys cau'r penderfyniadau a oedd ar ôl erbyn diwedd Mawrth/Ebrill, yn enwedig penderfyniadau mewnol ac optimeiddio fel a gyflwynwyd gan **IG**. Yna byddai PAC3 yn dilyn, gyda'r wybodaeth i gael ei pharatoi ar gyfer y cymunedau lleol. Byddai gwybodaeth o ran dylunio ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei chwblhau yn ddiweddarach yn 2017.
- Yna gwahoddodd **DE** gwestiynau o'r llawr ar y cyflwyniadau, a nododd y byddent yn ymddangos ar wefan y Grŵp Cyswllt maes o law. Ailadroddodd rai o'r pwyntiau allweddol a gyflwynwyd gan ofyn am gwestiynau ar bob adran yn eu tro.

Cwestiynau a sylwadau

- Dywedodd **DE** fod Prif Weithredwr Horizon wedi herio tîm Wylfa Newydd i gyflawni'r prosiect, a fyddai'n newid wrth iddo symud ymlaen
- Gofynnodd Wyn Thomas (WT) a ellid sicrhau bod y cyflwyniad PowerPoint ar gael ar wefan y Grŵp Cyswllt. Dywedodd CT y byddai modd gwneud hyn (*noder – ni fyddai hyn fel arfer yn digwydd nes y byddai'r cofnodion wedi eu cymeradwyo i'w cyhoeddi h.y. ar ôl cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt, pryd y bydd rhywfaint ohono wedi dyddio ac efallai yn cael ei gymysgu â dogfennaeth PAC3, e.e. Llety Gweithwyr Dros Dro*).
- Dywedodd **DE**: y bu aelodau'r Grŵp Cyswllt dan yr argraff fod Cyngor Sir Ynys Môn yn ddylanwad cryf o safbwynt cydsynio, roedd mynd i lawr llwybr Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn lle yn newid sylweddol i'r dull gweithredu hwnnw.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Dywedodd **IG** mai Llywodraeth y DU fyddai'n gwneud y penderfyniadau, a bod angen cefnogaeth y Cyngor er mwyn i'r prosiect symud ymlaen yn llwyddiannus, fel ymgynghorai statudol allweddol. Caiff y pecyn buddiannau cymunedol hwn ei lywio gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn newid allweddol; mae'n bwysig cael cydweithrediad â Chyngor Sir Ynys Môn ac mae parch gan y naill a'r llall tuag at ei gilydd. Dywedodd **IG** fod y broses bellach yn golygu y gallai Horizon yn gyfreithiol drafod y pecyn buddiannau cymunedol gyda Chyngor Sir Ynys Môn gyda llai o wrthdaro posibl rhwng buddiannau; yr oedd hyn yn anodd yn flaenorol pan oedd y penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Gyngor Sir Ynys Môn.
- Gofynnodd Phil Scott (**PS**) am esboniad syml o'r gwahaniaeth rhwng TCPA a DCO a phwy sy'n cael gwneud y penderfyniad? Gofynnodd hefyd a fyddai hyn yn cael ei egluro yn PAC3.
 - Cyfeiriodd **IG** at wybodaeth a oedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n esbonio'r berthynas rhwng datblygwyr a'r Llywodraeth. Cadarnhaodd hefyd y byddai hyn yn cael ei egluro yn nogfennau PAC3.
- Gwnaeth **DE** sylw ar arwyddocâd lleihau ôl-troed y safle; gan gynyddu'r pellter o'r briffordd ac oddi wrth bentrefi, a oedd yn cael ei groesawu. Byddai mwy o fanylion am hyn ar gael yn PAC3.
- Gofynnodd Myrddin Owens (**MO**) a oedd llety gweithwyr dros dro Amlwch A/B am gael ei adeiladu.
 - Cadarnhaodd **SD** y bydd yr opsiwn hwn yn cael ei dynnu o'r cynigion ar gyfer llety gweithwyr dros dro.
- Dywedodd Ann Kennedy (**AK**), Maer Caergybi nad oedd ganddi hi unrhyw fudd personol nac ariannol yn Land and Lakes, ond ei fod wedi cael ei ystyried erioed fel datblygiad allweddol ar gyfer Caergybi o ran twristiaeth. Yr oedd y Cyngor Tref yn parhau'n bryderus a fyddai'n rhan o ddatblygiad Wylfa Newydd ai peidio. Gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai'r datblygiad hwn yn mynd rhagddo.
 - Dywedodd **CT** fod trafodaethau'n parhau gyda Land and Lakes a bod ei hyfywedd ariannol dan ystyriaeth. Yr oedd teithio ar gyfer gweithwyr yn ffactor allweddol wrth asesu costau a hyfywedd masnachol hyn.
 - Ychwanegodd **SD** nad oedd Horizon yn rhan o gynnig Land and Lakes ar gyfer pentref gwyliau Penrhos, sydd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, o ran llety dros dro ar gyfer gweithwyr, yr oedd hyfywedd economaidd y lleoliad yn ffactor allweddol i'w ystyried. Fodd bynnag, byddai Caergybi yn parhau i chwarae rôl allweddol yn y prosiect o ran datblygiadau eraill cysylltiedig a fyddai'n cael eu lleoli yn y ngystal â chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl Caergybi.
- Gwnaeth **DE** sylw nad oedd wedi rhagweld y cynnydd yn y llety i staff ar y safle.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Dywedodd Tom Conway (**TC**) nad oedd wedi mynychu digwyddiadau PAC2, ond nad oedd yn ymwybodol a oedd unrhyw lety wedi'i gynnig ar gyfer y safle.
 - Dywedodd IG y nodwyd 500 o lefydd ar gyfer gweithwyr yn PAC2, ond yr oedd y cynlluniau presennol yn mynd drwy broses sgrinio a fyddai'n golygu cynnydd yn y ffigur hwnnw, o bosibl cynnydd sylweddol.
- Dywedodd **TC** mai dyma'r tro cyntaf iddo glywed am unrhyw lety i weithwyr dros dro ar y safle, a phwysleisiodd nad oedd y cyfleusterau carthffosiaeth lleol yn ddigonol, ac y dylid rhoi llawer iawn o ystyriaeth i'r mater hwn. Atgoffodd **DE** yr aelodau y cynigiwyd llety gweithwyr dros dro ar gyfer 500 o weithwyr yn PAC2.
 - Dywedodd **CT** eu bod eisoes wedi cysylltu â Dŵr Cymru ac wedi cadarnhau y byddai pibelli newydd a chynnydd o ran capasiti yn cael eu hadeiladu, a fyddai'n cael ei ariannu gan Horizon. Byddai'n rhaid adeiladu gwaith trin newydd ar gyfer y safle allai fod yn waddol i'r gymuned ar ôl hynny. Caiff cynigion eu cyhoeddi yn newyddiau PAC3 ac o'r herwydd ymgynghorir arnynt.
- Dywedodd **PS** fod yr hyn a gyflwynwyd yn dangos newidiadau sylfaenol i lety gweithwyr dros dro, a gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai'r cynigion newydd yn cael eu cynnwys yn PAC3 a sut y byddai caniatâd yn cael ei roi.
 - Cadarnhaodd **IG** y byddai'r cynigion yn cael eu cynnwys yn PAC ar gyfer ymgynghoriad.
 - Cadarnhaodd **SD** y byddai'r llety gweithwyr dros dro yn rhan annatod o'r cais cynllunio DCO fel y nodwyd yn y DCO.
- Gofynnodd **WT** am fanylion y cyfanswm posibl o weithwyr adeiladu y gellid o bosibl eu disgwyl yn Rhosgoch a Land and Lakes.
 - Nododd **CT** yr oedd disgwyl y byddai 1/3 o'r gweithwyr yn byw o fewn pellter teithio o 90 munud i'r ardal waith, 1/3 mewn llety a oedd eisoes yn bodoli yn yr ardal a'r 1/3 arall mewn llety ar y safle ac o bosibl yn Rhosgoch; yr oedd faint yn union fyddai ar bob safle yn dal i gael ei ystyried. Byddai ffigurau cadarnach yn cael eu cynnwys yn PAC3. Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo gyda darparwyr llety presennol a rhai newydd er mwyn darparu lle i'r rhai a fyddai'n ceisio llety ar yr ynys.
 - Ychwanegodd **SD** y byddai'r stoc tai presennol a oedd ar gael ar borth llety a fyddai'n cynorthwyo gyda darparu llety.
- Gofynnodd **AK** am esboniad ynghylch sut yr oedd lwfansau teithio'n gweithio.
 - Esboniodd **CT** y byddai'r rhai a oedd o fewn pellter teithio o 90 munud i'r man gwaith, fel arfer, yn talu eu costau teithio eu hunain. Byddai lwfans radiws ar gyfer rhai ond nid y rhai y darparwyd llety ar eu cyfer. Ni fyddai modd i unigolyn dderbyn y ddau lwfans.
- Gofynnodd Don White (**DW**) am eglurhad ar lety gweithwyr dros dro yn Amlwch.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Cadarnhaodd **SD** nad oedd hwn yn mynd rhagddo; fodd bynnag, byddi rhai tai parhaol yn cael eu hadeiladu ar gynigion Fferm Madyn.
- Gwnaeth Medwyn Williams (**MW**) sylw y byddai PAC2 yn dechrau mewn dau fis a gofynnodd pa bryd y byddai adroddiad adborth PAC2 yn cael ei gyhoeddi.
 - Dywedodd **IG** fod yr ymatebion i PAC2 yn dal i gael ei hystyried, gan gydnabod yr amserlen dynn. Yr oedd y sylwadau'n cael eu defnyddio i wneud newidiadau ar unwaith i PAC3 ac roedd rhwymedigaeth i gyhoeddi sut y gweithredid ar sylwadau ymgynghoriad fel rhan o'r DCO.

4. Cais am Drwydded Safle Horizon – Andy Bevan, Rheolwr Trwyddedu Safleoedd Niwclear, Pŵer Niwclear Horizon

- Cyflwynodd Andy Bevan (**AB**) gefndir y broses trwyddedu safle sy'n angenrheidiol i wneud y gwaith yn Wylfa Newydd a gweithredu'r cyfleuster yn y dyfodol. Cyflwynwyd strwythur y cais am drwydded safle, yn seiliedig ar gyfres o 11 o ddogfennau a oedd yn disgrifio galluedd y sefydliad. Byddai'r cais ar gael ar wefan Pŵer Niwclear Horizon yn yr wythnosau i ddod.
- Bu'r cais yn destun archwiliad beirniadol a oedd yn broses drylwyr iawn. Roedd cyfarfod wedi ei gynnal gyda ONR fel rhan o'r broses hon ac yr oedd yn cael eu ystyried yn gais cyflawn.
- Yn nhermau proses drwyddedu a chaniatáu ONR, eglurodd **AB** fod pum cam i'r broses hon gyda'r cais yn cael ei wneud ar 31 Mawrth 2017 (gyda'r dogfennau ar gael i'r cyhoedd ar Ebrill 3) a disgwyliar y caiff y drwydded ei chaniatáu ym mis Hydref 2018
- yn dilyn proses archwilio ONR.
- Eglurwyd themâu allweddol asesiad ONR, sef yr asesiad o addasrwydd y cwmni, addasrwydd y safle h.y. Cytundebau tir yn eu lle, ac addasrwydd y dyluniad.
- Dywedodd **AB** y byddai'r datblygiad yn cydymffurfio â phob un o'r 36 o amodau'r drwydded cyn i'r drwydded safle gael ei chaniatáu, a oedd yn cwmpasu dyluniad, adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.
- Cyflwynwyd manylion gwefannau a oedd yn cynnwys deunydd pellach i'w ddarllen.

Cwestiynau a sylwadau

- Gofynnodd **DE** a oedd y drwydded yn weithdrefn gam wrth gam.
 - Esboniodd **AB** y byddai'r drwydded yn rhoi caniatâd cychwynnol ac y byddai sawl caniatâd pellach yn ofynnol wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Gofynnodd **DE** a fyddai gan y pedwar cynrychiolydd o Exelon – Partner Gweithredol Horizon a oedd wedi gwreiddio yn Horizon, unrhyw beth i'w wneud â'r drwydded safle.
 - Cadarnhaodd **AB** y byddai staff Exelon yn cynnig cyngor ac yn gweithio gyda'r tîm gweithrediadau ar strategaethau a threfniadau.
 - Ymhelaethodd **SD** ar hyn gan ychwanegu bod staff Exelon wedi eu gwreiddio yn y sefydliad fel rhan o'r tîm Gweithrediadau dan Greg Evans fel Cyfarwyddwr.
- Nododd **MO** fod Horizon wedi datgan eu hymrwymiad i gefnogi'r iaith Gymraeg, fodd bynnag roedd sleidiau cyflwyniad y Cais am Drwydded Safle yn Saesneg yn unig.
 - Cadarnhaodd **SD** y dylai pob sleid fod yn ddwyieithog ac y byddant yn ddwyieithog ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol.
- Gofynnodd G.O. Jones (**GOJ**) a oedd y Cais am Drwydded Safle yn cwmpasu cylch bywyd cyfan yr orsaf bŵer?
 - Cadarnhaodd **CT** fod y drwydded ar gyfer cylch bywyd cyfan yr orsaf h.y. Yr un fath â safle cyfredol Magnox.
- Gofynnodd Eric Torr (**ET**) a oedd dyluniad yr adweithydd wedi ei gymeradwyo?
 - Dywedodd **CT** ei fod ym mhedwerydd cam ei ddatblygiad a bod disgwyl y byddai'n cael ei gymeradwyo yn ddiweddarach eleni.

5. Diweddariad ar Menter Newydd – Lowri Joyce, Hitachi Nuclear Energy Europe Ltd.

- Eglurodd Lowri Joyce (**LJ**) y rhaglen a strwythur y tîm.
- Cyflwynwyd manylion gweithgareddau blwyddyn ariannol 2016. Mae Menter Newydd dan gcontract i Horizon yn ystod cyfnod o dair blynedd o Ymgysylltu â Chontractwyr yn Gynnar (ECE).
- Yr oedd y ffocws wrth fynd ymlaen ar ofynion cyn y penderfyniad buddsoddi terfynol ac i baratoi ar gyfer cynnig EPC (Peirianeg, Caffael ac Adeiladu) ar gyfer Pŵer Niwclear Horizon yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Cyflwynodd **LJ** drosolwg o'r materion allweddol i'w hystyried, a oedd yn cynnwys cefnogi siarter cadwyn gyflenwi Horizon, a rhannodd fanylion pellach am gyfleoedd, sgiliau a hyfforddiant yng nghyswllt y gadwyn gyflenwi, a datblygu fframwaith i ddarparu'r gweithlu adeiladu.
- Yr oedd yr ymgynghoriad dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd bellach wedi cau ar ôl cynnal sawl digwyddiad lle cafwyd presenoldeb da ar Ynys Môn ac yn Thornbury; byddai adborth ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd maes o law.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Esboniodd **LJ**, yn ystod yr Aseiad Dyluniad Generig (GDA), y gellid gwneud sylwadau ar ddyluniad ABWR y DU yn y Gymraeg eu yn Saesneg drwy'r wefan ac y byddai ymateb yn cael ei roi mewn modd amserol.
- Cynigiodd **LJ** roi cyflwyniad mwy technegol ar ABWR y DU mewn cyfarfod yn y dyfodol. Croesawyd hyn gan DE, oherwydd mwyaf yn y bydd y byddai aelodau'r Grŵp Cyswllt yn ymgwyfarwyddo â'r prosiect, yna gallai ddod yn llai brawychus.

Cwestiynau a sylwadau:

- Gwnaeth Iwan Williams (**IW**), Cyfoeth Naturiol Cymru, sylw y byddai cyfle i neud sylwadau ar yr aseiad o safle Wylfa Newydd a'r effaith amgylcheddol ehangach. Ychwanegodd **LJ** y gellid rhoi eglurhad ar y newidiadau a wnaed mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.

5. Unrhyw fater arall

- Cyflwynodd Gavin Cook (**GC**) o'r National Grid wybodaeth am brosiect Cysylltu Gogledd Cymru, yn dilyn cau'r ymgynghoriad. Yr oedd oddeutu 1,800 o ymatebion wedi eu derbyn, a oedd yn cynorthwyo gyda'r dylunio ac yn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas.
- Yr oedd datblygu'r cysylltiad yn golygu cydbwysu llawer o ffactorau gwahanol a heriau technegol, yn enwedig gyda'r twnnel dan y Fenai yn ogystal â materion amgylcheddol sensitif o ran Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) a thwristiaeth ledled Ynys Môn.
- Cydnabu **GC** fod llawer o sylwadau wedi eu derbyn ynghylch dwy linell gyfochrog a sut y byddai'r rhain yn effeithio ar y tirlun ac yr oedd yn deall y safbwyntiau a gyflwynwyd ond dywedodd fod cysylltiad niwclear gweithredol arall sef Sizewell B sydd â'r un math o gysylltiad cyfochrog drwy linellau uwchben felly ni fyddai hyn yn ddigynsail.
- Mae National Grid yn archwilio lleoliadau ar gyfer y llinellau hyn, gan ystyried adborth strategol gan randdeiliaid am osod yr holl lwybr dan ddaear ac adborth penodol gan dirfeddianwyr ar leoliadau a mynediad. Darparwyd adborth i'r holl ymgynghoreion statudol a'r cynghorau cymuned a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Caiff yr holl adborth ei gynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad.
- Eglurodd **GC** fod pwyslais uchel ar gost gydol y broses gynllunio ond o ran yr hyn yr oedd National Grid yn ei gyflwyno, yr oedd yn gydbwysedd rhwng faint o fuddsoddiad oedd yn cael ei wneud a'r ddyletswydd i fod yn effeithlon ac yn economaidd o ran gweithredu. Nododd **GC** fod National Grid yn cael ei reoleiddio a bod yn ofynnol iddo gwrdd ag ystod o rwymedigaethau.
- Cyflwynwyd y camau nesaf cyn cyflwyno i aelodau'r Grŵp Cyswllt. Yr oedd hyn yn cynnwys asesu adborth ac ymateb i sylwadau statudol. Dyma'r pwyntiau allweddol:

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Yn ystod y gwanwyn a'r haf, byddai rhywfaint o waith ac ymgynghori ychwanegol yn digwydd yn ardal gorllewin Gwynedd.
- Yn yr hydref 2017, byddai National Grid yn gweithredu cyn agosed â phosibl i Horizon o ran gweithdrefnau cynllunio a chais DCO National Grid ei hun i Lywodraeth y DU.
- Yr oedd disgwyl y byddai'r DCO yn cael cymeradwyaeth erbyn 2019 ac yr oedd National Grid yn hyderus y gallai ddarparu cysylltiad ar gyfer yr orsaf bŵer fel y disgwylid.
- Ychwanegodd **GC** mai'r twnnel dan y Fenai oedd agwedd fwyaf sylweddol y prosiect o ran adeiladu ac yr oedd disgwyl mai dyma fyddai'r gweithgaredd cyntaf ar y safle.

Cwestiynau a sylwadau:

- Gwnaeth **WT** sylw y byddai cyfnod adeiladu'r cysylltiad, 2020 - 2024 yn cyd-redeg â'r cyfnod prysuraf ar gyfer gweithwyr Wylfa, a gofynnodd ymhle y byddai gweithwyr National Grid yn cael llety.
 - Dywedodd **GC** nad oedd National Grid cyn belled ar y blaen ag yr oedd Horizon o ran cynllunio gweithluoedd ond fod National Grid yn amcangyfrif mai dim ond cannoedd, yn hytrach na miloedd o weithwyr fydd eu hangen. Dywedodd GC y byddent angen tîm hynod arbenigol ar gyfer adeiladu'r twnnel gan mai ond ychydig a all gyflawni gwaith o'r fath yn y byd i gyd. Gangiau llinell - yn gyfrifol am y llinell uwchben - fel arfer cânt eu ffurfio o grwpiau o 10-20, felly'n hawdd eu trin.
- Dywedodd y Cyng. John Griffith (**JG**) fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi gosod ceblau dan ddaear ar draws yr ynys gyfan, a bod ymateb National Grid wedi bod yn dawel ar hyn. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwrthwynebu dwy linell ar draws yr ynys, a fyddai ym marn **JG** yn effeithio ar dwristiaeth ac ar fwynderau lleol; aeth ymlaen i ofyn a oedd National Grid yn derbyn y byddai dwy linell yn cael yr effaith hon?
 - Dywedodd **GC** fod National Grid yn rhoi ystyriaeth ofalus i wahanol agweddau'r datblygiad a chydabu'r cas am geblau dan ddaear ar gyfer yr holl gysylltiad. Dywedodd y byddai National Grid yn edrych ar effaith y llinellau cyfocrog, er nad oedd hyn yn golygu ymrwymiad i roi'r ceblau i gyd dan ddaear, gan geisio cydbwysu'n ofalus unrhyw effeithiau posibl yn erbyn dyletswyddau a pholisïau statudol.
- Gofynnodd **TC** beth fyddai'r cynnydd mewn taliadau ar gyfer cysylltiadau dan ddaear drwy Ynys Môn i gyd.
 - Cadarnhaodd **GC** fod swm uwch yn cael ei dalu am geblau dan ddaear nac ar gyfer ceblau uwchben y tir, gyda'r union symiau yn dibynnu ar y tir presennol, y defnydd a oedd yn cael ei wneud ohono a ffactorau eraill. Gallai hyn fod o fudd ariannol i dirfeddianwyr.
 - Cadarnhaodd **GC** hefyd nad oedd unrhyw fecanwaith i oeri ceblau dan ddaear, byddent yn cael eu hinswleiddio a'r gwres yn mynd ohonynt yn y ddaear. Nid ydynt yn sterileiddio'r tir a byddai'n dal i allu cael ei ddefnyddio i ddibenion amaethyddiaeth.
- Gofynnodd **DW** a oedd ystyriaeth wedi ei roi i osod y ceblau dan y môr.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Dywedodd **GC** fod hyn wedi'i archwilio'n fanwl yn yr asesiadau o'r opsiynau strategol; yn anffodus nid oedd y dechnoleg ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gosod ceblau cerrynt union foltedd uchel (HVDC) o dan y môr ar gyfer y capasiti a oedd yn angenrheidiol i gysylltu Horizon; hyd yn oed pe byddai ar gael, byddai'n gais cyntaf o'i fath yn y byd ar gyfer gorsaf bŵer niwclear ar gyrion rhwydwaith; yr oedd angen llawer o ymchwil o hyd yn y maes hwn. Mae datblygiadau mewn ymchwil yn y maes hwn yn parhau i fynd rhagddynt ac yr oedd National Grid wedi ymchwilio sut y gellid cymhwyso hyn i Wylfa Newydd, fodd bynnag byddai heriau yn yr amserlen hon yn golygu bod y prosiect mewn perygl a gallai hefyd olygu risg i allu National Grid i gysylltu Wylfa Newydd ar amser.
- Cyfeiriodd **DE** at bryderon John Idris Jones yn y cyfarfod diwethaf ynghylch dibynadwyedd cynnal dwy linell gyfochrog a phryderon ynghylch effaith terfysgaeth neu dywydd eithafol arnynt. Yr oedd ymateb i'r pryderon wedi ei dderbyn drwy llythyr gan National Grid a Horizon, a darllenodd y Cadeirydd y llythyr yn uchel i'r rhai a oedd yn bresennol, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith fod National Grid yn cymryd ystwythder y llinell o ddifri ac wedi cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o golli cysylltiad oherwydd digwyddiad mawr, ac yr oedd sawl elfen ddiogelwch yn eu lle - gan gynnwys cynllunio sefyllfaoedd yn rheolaidd. Nododd **DE** fod y llythyr yn egluro fod pob math o rwydwaith yn galw am rai strwythurau uwchben y tir ac y gallai technoleg dan ddaear hefyd fod yn agored i ymosodiad neu ddigwyddiadau eithafol, a bod ganddo hefyd fesurau diogelwch yn eu lle. Yr oedd National Grid yn dilyn pob canllaw perthnasol, yn yr ystyr fod llinellau yn gadarn ac yn gallu ymdopi ag unrhyw ddigwyddiadau, boed yn rhai bwriadol ai peidio. Dywedodd **DE** y byddai'r llythyr yn cael ei gadw ar y ffeil er gwybodaeth i'r dyfodol, pe byddai ei angen.
- Dywedodd **PS** ei bod yn hanfodol i randdeiliaid fod ar gael i fynychu gweithdai lliniaru twristiaeth. Gofynnodd i Horizon a fyddai'n bosibl trefnu cyfarfodydd ynghynt er mwyn cael cynrychiolaeth dda o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.
 - Ymatebodd **IG** fod y calendr o gyfarfodydd ymgysylltu wedi eu mapio'n llawn ac wedi cael eu cyfleu i'r holl randdeiliaid.

6. Cau

- Diolchodd **DE** i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 19.40.